



CYFLWYNIAD

Ffrwythau meddal oedd y pethau cyntaf i gael eu plannu yn llain arddangos garddwriaeth Henfaes. Mae'r llain wedi ehangu ers hynny i gynnwys lafant, asbaragws a rhiwbob. Yr ychwanegiadau diweddaraf i'r llain yw rhosmari, saets, mintys a theim. Ar 18 Awst cynhaliodd CALU ddiwrnod agored yn edrych ar dyfu llysiau mewn caeau ac mewn potiau. Pwrpas y daflen ffeithiau hon yw rhoi hanes cryno sefydlu'r llain perlyisiau yn Henfaes.

AMRYWIADAU

Archebwyd planhigion micro-fodiwl o'r mathau a ddangosir yn Nhabl 1 o Kernock Plants, Cernyw, ym mis Tachwedd 2009.

Tabl 1: Mathau lluosflwydd o berlyisiau ar gyfer lleiniau perlyisiau Henfaes

Enw cyffredin y perlysieuyn	Enw Lladin	Disgrifiad
Rhosmari	<i>Rosmarinus officinalis</i>	Dail gwyrdd tywyll unionsyth a blodau glas
Saets	<i>Salvia officinalis</i> 'Purpurascens'	Math porffor o'r Saets llydanddail adnabyddus
Saets	<i>Sage officinalis</i>	Dail llydan, gwyrdd, unionsyth
Teim	<i>Thymus vulgaris</i>	Dail gwyrdd tywyll, trwchus, unionsyth gyda blodau pinc .
Pupur-fintys Siocled	<i>Mentha x piperita</i> 'Chocolate'	Ffurf felysach ar 'Pupur-fintys Du' gyda'r awgrym lleiaf o siocled siwgrllyd.
Mintys afal	<i>Mentha suaveolens</i>	Un o'r planhigion mintys mwyaf poblogaidd ar gyfer coginio gyda dail blewog crwn mawr, arogl afal a blodau pert.

Cyrhaeddodd y micro blygiau ar Ragfyr 10 2009. Dim ond un planhigyn a gollwyd yn ystod y daith: plwg rhosmari.

TRAWSBLANNU I BOTIAU MWY

Yn syth ar ôl iddynt gyrraedd, trawsblannwyd y microblygiau i botiau 9cm yn llawn compost amlbwrpas Humax. Roedd y compost yn wlyb iawn, wedi cael ei gadw yn yr awyr agored. Gadawyd y planhigion i ymsefydlu mewn tŷ gwydr heb wres dros y gaeaf.

PARHAU I DYFU

Gan fod y compost yn wlyb iawn, ni roddwyd dŵr i'r planhigion ar ôl eu plannu yn y potiau mwy. Cymerwyd cip arnynt bob hyn a hyn (unwaith yr wythnos o leiaf) pan oedd staff yn gweithio yn y cyffiniau. Parhaodd y planhigion i dyfu yn y tŷ gwydr heb wres tan Ebrill 8 2010 pan symudwyd hwy i feinciau y tu allan i arfer â'r awyr agored.



PARATOI'R SAFLE MAES

Lle i ddefaid bori oedd y safle cyn hynny. Y cam cyntaf oedd codi ffensys cadarn o gwmpas y llain i gadw cwingod a defaid allan. Chwistrellwyd Glyphosate ar y gwair ganol Chwefror. Cafodd y llain ei haredig ar Fawrth 11 2010 a'i thrin â Pirisect (cynhwysyn gweithredol: chlorpyrifos) ar Fawrth 18 yn y gobaith o ddenu llai o gynrhon lledr.

Ar Ebrill 21 gorchuddiwyd yr ardal â ffabrig fel Mypex. Plannwyd y perlysiâu yn y cae fesul tipyn ar 23, 26 a 27 Ebrill 2010. Cawsant eu dyfrhau ar ôl plannu oherwydd na fu dim glaw yn yr wythnosau blaenorol.

BYLCHAU

Gwnaed toriadau yn y Mypex a phlannwyd planhigion teim bob 0.3m o fewn y rhes gyda 0.5m rhwng rhesi. Plannwyd gweddill y perlysiâu bob 0.5m yn y rhes a 0.5m rhwng y rhesi.

RHEOLI

Chwynnir y llain â llaw yn ôl yr angen yn ystod y tymor tyfu. Caiff y perlysiâu eu tocio yn ôl yr angen.

COSTAU CYNHYRCHU

Yn ystod y broses rydym wedi monitro mewnbynnau (llafur a defnyddiau) sydd ynghlwm wrth sefydlu'r llain arddangos. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r wybodaeth hon.

Tabl 2: costau cynhyrchu 3 x 60m rhes o berlysiâu yn CALU Henfaes, 2010

Eitem	Uned	Cost yr Uned (£)	Faint	Cost (£)
Planhigion micro-fodiwl				
Mintys (afal)	Yr un	0.24	57	13.68
Mintys (siocled)	yr un	0.25	57	14.25
Saets (Gwyrdd)	yr un	0.25	57	14.25
Saets(porffor)	yr un	0.25	57	14.25
Rhosmari	yr un	0.26	57	14.82
Teim	yr un	0.25	75	18.75
Potiau 9cm	yr un	0.01	360	3.60
Hambyrddau potiau	yr un	0.72	18	12.96
Compost amlbwrpas Humax	litr	0.05	120	6.00
Llafur	awr	7.20	4	28.80
Dyfrhau, monitro a chynnal a chadw parhaus – awr / wythnos	awr	7.20	20	144.00
Pryfleiddiad	litr	10.75	0.05	0.54
Rhoi pryfleiddiad	awr	7.20	0.30	3.60
Meithrin	awr	22.00	1	22.00
Plannu allan	awr	6.50	8	52.00
Gosod geo-decstil	awr	7.20	5	36.00
Geo-decstil	metr	1.00	60	60.00
Cyfanswm cost				£459.50
Cost fesul planhigyn				£1.28



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig; Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development; Europe Investing in Rural Areas



Centre for Alternative Land Use
Canolfan Ddefnydd Tir Amgen



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government